Lleihau Nifer y Bobl sy‟n Cael eu Hanafu neu eu Lladd a Rheoli Cefnffyrdd 2009 diweddarwyd Mawrth 2011

| | **Argymhelliad gan y Pwyllgor** | **Ymateb Hydref 2009** | **Diweddariad Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|
| 1 | Casglwn fod y patrwm presennol o reoli‟r rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru yn gymhleth ac argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried creu asiantaeth gefnffyrdd genedlaethol. | Derbyn mewn egwyddor<br><br>Mae‟r patrwm presennol o reoli cefnffyrdd yng Nghymru yn gymhleth. Rwyf eisoes wedi comisiynu adolygiad cynhwysfawr o‟r model cyfredol i bennu ai dyma‟r dewis gorau o hyd o ran darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon ac adeiladu ar yr hyn sydd wedi‟i gyflawni hyd yma. Yn ogystal â chymharu‟r gwahanol ddewisiadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried a ddylid trefnu gweithrediadau ar lefel ranbarthol neu genedlaethol. Y nod yw cwblhau‟r adolygiad erbyn y flwyddyn newydd. | Mae‟r adolygiad o‟r Asiantaethau Cefnffyrdd a‟r ymgynghoriad arnynt wedi‟i gwblhau. Rwy‟n disgwyl gwneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen cyn bo hir. |
| 2 | Creda‟r Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru bennu ei thargedau ei hun ar gyfer 2020 o ran diogelwch ar y ffyrdd, gan ystyried amgylchiadau unigryw ac arbennig Cymru ac argymhellwn y dylai‟r Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd ar gyfer Cymru gael ei hadolygu a‟i diweddaru i gynnwys y targedau newydd hyn. | Derbyn mewn egwyddor<br><br>Mae‟r targedau arfaethedig ar gyfer lleihau nifer y bobl sy‟n cael eu hanafu neu eu lladd ar y ffyrdd erbyn 2020 wedi‟u datblygu ar gyfer Prydain gyfan. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn gweithio‟n agos gyda‟r Adran Drafnidiaeth i sicrhau bod amgylchiadau Cymru yn cael eu hystyried wrth bennu‟r targedau newydd hyn. Rwy‟n derbyn, mewn egwyddor, y gallem ddatblygu targedau ar gyfer Cymru gyfan. Byddai‟n rhaid i‟r rhain fod yn realistig ac o leiaf yr un mor uchelgeisiol / i‟w cymharu â‟r targedau ehangach ar gyfer Prydain gyfan. Byddaf yn ymchwilio i‟r posibilrwydd o ddatblygu targedau o‟r fath. | Daeth Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd Prydain Fawr a‟r Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd i Gymru i ben ar ddiwedd 2010. Ar hyn o bryd mae‟r Adran Drafnidiaeth yn datblygu fframwaith strategol newydd ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd ac rydym wedi bod yn cydweithio â hi. Hyd yma ni chynigiwyd unrhyw dargedau newydd i Brydain Fawr ar gyfer lleihau nifer y bobl sy‟n cael eu hanafu neu eu lladd ar y ffyrdd. |

| | Argymhelliad gan y Pwyllgor | Ymateb Hydref 2009 | Diweddariad Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|
| | | | Rhoddodd y Llywodraeth newydd derfyn ar y gwaith ar y targedau a gynigwyd ynghynt yn dilyn yr Etholiad y llynedd.<br><br>Yn y cyfamser mae Llywodraeth Cynulliad Cymru‟n gweithio gyda rhanddeiliaid eraill i ddatblygu strategaeth dros dro. |
| 3 | Argymhellwn fod awdurdodau lleol yn edrych o ddifrif at gynyddu‟r defnydd o gyfyngiadau 20mya mewn ardaloedd trefol yng Nghymru. Rydym yn argymell hefyd y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i gynorthwyo awdurdodau lleol wrth wneud mwy o ddefnydd o gyfyngiadau 20mya. | Derbyn<br><br>Mae‟n un o ymrwymiadau Cymru‟n Un i wneud mwy o ddefnydd o‟r terfyn 20mya ledled Cymru, ac mae Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i ymestyn cynlluniau 20mya a llwybrau diogel i ysgolion. Ar y cyfan, mae terfynau 20mya yn fwy priodol ar gyfer ffyrdd llai y mae awdurdodau priffyrdd lleol yn gyfrifol amdanynt. Heddiw rwy‟n cyhoeddi canllawiau o‟r enw “Pennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru”, a fydd yn caniatáu i derfynau 20mya rhan-amser gael eu cyflwyno ar y rhwydwaith cefnffyrdd ble y bo‟n briodol. Mae‟r canllawiau ynghlwm i‟r papur yma at Annex A. | Cyhoeddais Ganllawiau ym mis Tachwedd 2009 ac anogir pob Awdurdod Lleol i adolygu‟r terfynau cyflymder ar ei ffyrdd. Mae gennym raglen i adolygu ein holl gefnffyrdd erbyn 2014. |
| 4 | Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu cyfyngiadau cyflymder ar ffyrdd gwledig ac y dylai annog | Derbyn mewn egwyddor<br><br>Mae‟r canllawiau yr wyf yn eu cyhoeddi heddiw, “Pennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru”, yn annog | Fel uchod |

| | Argymhelliad gan y Pwyllgor | Ymateb Hydref 2009 | Diweddariad Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|
| | awdurdodau lleol i wneud mwy o ddefnydd o‟u pwerau i ostwng cyfyngiadau cyflymder i 40mya lle mae hynny‟n briodol fel y gallant ymateb yn gyflym i bryderon a gaiff eu codi sy‟n ymwneud â chyflymder mewn rhai ardaloedd, yn hytrach nag ymateb ar ôl i bobl gael eu hanafu neu eu lladd. | awdurdodau priffyrdd i adolygu terfynau cyflymder ar eu rhwydweithiau ac ystyried eu newid lle‟n briodol. Bydd y canllawiau‟n helpu awdurdodau priffyrdd i bennu terfynau cyflymder lleol mewn sefyllfaoedd lle mae anghenion ac ystyriaethau lleol yn golygu ei bod yn ddymunol i yrwyr fabwysiadu cyflymder sy‟n wahanol i‟r terfyn cyflymder cenedlaethol. | |
| 5 | Argymhellwn fwy o fuddsoddiad mewn technoleg camerâu symudol ar y rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru, yn ogystal â mwy o ddefnydd ohonynt. | Derbyn mewn egwyddor<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda Phartneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru i adolygu safleoedd gorfodi ar y rhwydwaith cefnffyrdd ledled Cymru. Mae‟n bwysig bod technoleg camerâu, ochr yn ochr â mesurau eraill i sicrhau diogelwch ar y ffyrdd, yn targedu lleoliadau lle mae pryderon o fewn y gymuned leol neu nifer y bobl sy‟n cael eu hanafu neu eu lladd ar y ffyrdd yn cyfiawnhau hynny. | Mae‟r holl safleoedd gorfodi cyflymder ar y rhwydwaith cefnffyrdd wedi cael eu hadolygu yng nghyd-destun nifer y bobl a gafodd eu hanafu neu eu lladd a‟r cyflymderau a gofnodwyd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn eistedd ar Grwpiau Llywio a Rhanbarthol Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru sy‟n rheoli gorfodi trwy gamerâu symudol yng Nghymru. Yn 2010/11, darparwyd £6.74 miliwn i‟r Bartneriaeth ar gyfer ei chostau busnes craidd. Yn ystod y flwyddyn dyrannwyd £0.751 miliwn ychwanegol ar gyfer |

| | Argymhelliad gan y Pwyllgor | Ymateb Hydref 2009 | Diweddariad Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|
| | | | digideiddio camerâu sefydlog a gwella"r seilwaith a fodolai eisoes. |
| 6 | Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru annog pob un o"r pedwar heddlu yng Nghymru i gynnal ymgyrchoedd gorfodi ar gerbydau anghyfreithlon er mwyn lleihau nifer y bobl a gaiff eu hanafu neu eu lladd a lleihau nifer y damweiniau ar y ffyrdd. | Derbyn<br><br>Mae gan Lywodraeth y Cynulliad gynrychiolaeth ar Bwyllgor Uwch Swyddogion Traffig Cymru a"i is-grŵp Cyhoeddusrwydd. Mae Heddluoedd Cymru yn parhau i gynnal ymgyrchoedd gorfodi ar gerbydau anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i annog y dull gwaith hwn fel ffordd o leihau nifer y bobl sy"n cael eu hanafu neu eu lladd a nifer y damweiniau ar y ffyrdd. | Cyflawnodd heddluoedd Cymru ymgyrch orfodi trwy Gymru gyfan y llynedd ar gerbydau anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i hybu"r ymagwedd hon. |
| 7 | Nad yw Ystadegau Trafnidiaeth Cymru Pennod Diogelwch ar y Ffyrdd yn cynnwys manylion o ran nifer y Cerbydau Nwyddau Trwm a Cherbydau Nwyddau Ysgafn oedd yn gysylltiedig â damweiniau ar ffyrdd Cymru.<br>Argymhellwn y dylid darparu"r wybodaeth hon er mwyn galluogi"r diwydiant a"r Llywodraeth i wneud dadansoddiad mwy effeithiol o ddiogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru. | Derbyn<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod angen gwell gwybodaeth ystadegol mewn perthynas â nifer y cerbydau nwyddau trwm a"r cerbydau nwyddau ysgafn sy"n gysylltiedig â damweiniau ar y rhwydwaith trafnidiaeth yng Nghymru. Paratowyd tabl o ddata ar ddamweiniau ffordd ac anafiadau yr oedd cerbydau nwyddau trwm a cherbydau nwyddau ysgafn yn gysylltiedig â nhw. Cyhoeddwyd hwn fel dau dabl ychwanegol (un ar gyfer cerbydau nwyddau trwm, un ar gyfer cerbydau nwyddau ysgafn) ym Mhennod 4 – Diogelwch ar y Ffyrdd, yn Ystadegau Trafnidiaeth Cymru.<br><br>http://cymru.gov.uk/topics/statistics/headlines/trans200 | Mae"r ystadegau wedi cael eu cyhoeddi eisoes. |

| | Argymhelliad gan y Pwyllgor | Ymateb Hydref 2009 | Diweddariad Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|
| | | 9/hdw200910272/?lang=cy&cr=2 | |
| 8 | Argymhellwn y dylai awdurdodau gorfodi dargedu‟r gweithredwyr masnachol hynny sydd â‟r record waethaf o ran diogelwch ynghyd â gweithredwyr nad ydynt yn cydymffurfio, gan gynnwys y rhai sydd wedi cofrestru yn y DU a thramor, ac y dylai dirwyon sefydlog graddol barhau i gael eu defnyddio i wella safonau cerbydau ar y ffyrdd. | Methu â derbyn<br><br>Nid wyf yn gallu derbyn yr argymhelliad hwn gan nad yw‟n fater datganoledig. Llywodraeth y DU a‟i hasiantaethau gorfodi sy‟n gyfrifol amdano. Er hynny, byddaf yn trefnu i Adrannau priodol Llywodraeth y DU dderbyn copi o‟r argymhelliad hwn. | Mae copi o‟r adroddiad wedi cael ei anfon at yr Adran Drafnidiaeth. |
| 9 | Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru arwain ar ddatblygu strategaeth gydlynol ar gyfer darparu cyfleusterau i yrwyr a gweithio gyda Chonsortia Trafnidiaeth Rhanbarthol ac awdurdodau lleol i sicrhau bod cyfleusterau i gael egwyl reolaidd a chyfleusterau dros nos yn cael eu darparu ar gyfer gyrwyr cerbydau nwyddau trwm ar y prif lwybrau cludo nwyddau. | Derbyn<br><br>Byddwn yn ystyried hyn fel rhan o‟r Strategaethau Rheoli Llwybrau yr ydym yn eu datblygu ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd. Fel yr amlinellir yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, ein nod yw sicrhau bod y Strategaethau hyn ar waith ar gyfer pob coridor erbyn 2011. | Mae gwaith ar ddatblygu Strategaethau Rheoli Llwybrau ar gyfer y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd yn parhau |
| 10 | Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru annog y diwydiant nwyddau trwm yng Nghymru i fabwysiadu technegau SAFED (sef gyrru | Derbyn<br><br>O dan ein Strategaeth Cludo Nwyddau, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd camau gweithredol i | Rydym yn parhau â‟n rhaglen Arfer Gorau Cludo Nwyddau a‟n rhaglen Arfer Gorau Faniau, sydd â‟r nod o annog cludwyr a |

| | Argymhelliad gan y Pwyllgor | Ymateb Hydref 2009 | Diweddariad Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|
| | diogel ac effeithiol o ran tanwydd) er mwyn galluogi cwmnïau i leihau faint o danwydd a ddefnyddir ganddynt, gan arwain at leihau allyriadau yn yr atmosffer yn ogystal â sicrhau bod gyrwyr mwy craff ar y ffyrdd. | annog y diwydiant cludo nwyddau i fabwysiadu arfer gorau. Rydym yn cymryd rhan yn y Rhaglen Arfer Gorau Cludo Nwyddau, sy‟n sicrhau bod gwybodaeth am arfer gorau ar gael i‟r diwydiant. Rydym hefyd, mewn partneriaeth â‟r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, wedi lansio Rhaglen Cyngor Trafnidiaeth ar gyfer gweithredwyr fflydoedd ceir a faniau, gan gynnwys Adolygiadau Fflydoedd Gwyrdd. | gweithredwyr faniau i **arbed arian, lleihau allyriadau CO2** a **gwella effeithlonrwydd** trwy eu gweithrediadau i gyd trwy fabwysiadu‟r arfer gorau, er enghraifft, yn nhermau technegau „eco-yrru‟ a chyfuno llwythi. Yn yr un modd, nod ein Rhaglen Cyngor Trafnidiaeth, sy‟n cynnwys Adolygiadau Fflydoedd Gwyrdd, yw lleihau allyriadau o weithredwyr fflydoedd ceir a faniau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cefnogi‟r rhaglen eco-yrru, menter benodol i helpu gyrwyr i wella eu techneg yrru er mwyn lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd, yn ogystal â sicrhau arbedion cost sylweddol o bosibl. |
| 11 | Rydym yn croesawu cyrsiau addysgu diogelwch ar y ffyrdd ond argymhellwn y dylai cyrsiau‟r cyfranogwyr gael eu monitro‟n well er mwyn deall yr effaith ar eu hymddygiad a‟u sgiliau wrth yrru. | Derbyn<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi‟n llwyr y gwaith o hyrwyddo a darparu addysg diogelwch ar y ffyrdd ledled Cymru. Rydym yn darparu cyllid grant penodol i awdurdodau lleol i‟w galluogi i ddatblygu rhaglenni addysg ar gyfer defnyddwyr y ffyrdd a‟u | Gofynnwyd i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiadau monitro ar gyfer cynlluniau a phrosiectau a ariennir trwy‟r grant diogelwch ffyrdd lleol. Rydym yn cydweithio gyda RoSPA i werthuso Pass Plus |

| | Argymhelliad gan y Pwyllgor | Ymateb Hydref 2009 | Diweddariad Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|
| | | haddasu ar gyfer eu hanghenion lleol. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid diogelwch ar y ffyrdd i'w hannog i wneud gwaith monitro a gwerthuso, ac yn sicrhau bod hyn yn ofynnol lle rydym yn darparu cyllid grant. | Cymru. |
| 12 | Argymhellwn y dylai Clwb Teithio"r Beicwyr, a gaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i adeiladu capasiti a gwella safonau hyfforddiant beicio, gael ei ariannu"n briodol a"i ddarparu"n gyson ledled Cymru. | Derbyn<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau bod Hyfforddiant Beicio"r Safon Genedlaethol ar gael yn fwy eang trwy"r prosiect adeiladu capasiti a arweinir gan y Cyclists" Touring Club. Mae"r prosiect tair blynedd hwn yn cael ei ariannu ar y cyd mewn partneriaeth rhwng tair o adrannau Llywodraeth y Cynulliad i adlewyrchu"r ffaith bod manteision eang ynghlwm wrth sicrhau bod hyfforddiant o safon uchel ar gael yn rhwyddach ym maes beicio ar y ffordd.<br><br>Un o amcanion y prosiect yw sicrhau bod pob rhan o Gymru yn elwa ar dros 100 o hyfforddwyr newydd gymhwyso sy"n gallu cynnig Hyfforddiant Beicio"r Safon Genedlaethol. Bydd eu costau hyfforddi"n cael eu talu o dan y prosiect. O fewn y flwyddyn weithredu gyntaf, hyfforddwyd dros 50 o Hyfforddwyr ac mae 18 o"r 22 o dimau Diogelwch ar y Ffyrdd awdurdodau lleol yng Nghymru yn darparu neu"n treialu Hyfforddiant Beicio"r Safon Genedlaethol. | Mae"r Cyclists" Touring Club wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i feithrin capasiti i ddarparu mwy o Hyfforddiant Beicio"r Safon Genedlaethol ar draws Cymru. Trwy"r prosiect, mae hyfforddiant i fwy na 100 o hyfforddwyr Safon Genedlaethol wedi cael ei gefnogi. Ymgysylltwyd â phob awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn darparu hyfforddiant beicio"r Safon Genedlaethol. Mae Safonau Cenedlaethol wedi cael eu cyflenwi i ddisgyblion blwyddyn 6 mewn ugain ardal awdurdod lleol o"u cymharu â saith ar ddechrau"r Prosiect Meithrin Gallu.<br><br>Mae darpariaeth hyfforddiant beicio o ansawdd isel nad yw"n |

| | Argymhelliad gan y Pwyllgor | Ymateb Hydref 2009 | Diweddariad Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|
| | | | bodloni‟r Safon Genedlaethol wedi cael ei lleihau, ac mae‟r deunyddiau angenrheidiol i hyfforddwyr a hyfforddeion bellach ar gael yn ddwyieithog.<br><br>Prosiect tair blynedd oedd hwn a gydariannwyd gan dair o adrannau Llywodraeth y Cynulliad er mwyn adlewyrchu natur drawsbynciol y manteision o sicrhau bod hyfforddiant o safon uchel ar gael yn rhwyddach ym maes beicio ar y ffordd. Mae‟r prosiect i fod i ddod i ben yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a gwahoddwyd y CTC i gyflwyno cynnig i Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymestyn y prosiect, er mwyn atgyfnerthu‟r cynnydd sydd wedi cael ei wneud. |
| 13 | Argymhellwn y dylid ystyried darparu ac ariannu canolfan addysg diogelwch y ffordd, DangerPoint a CrashPoint, mewn | Derbyn mewn egwyddor<br><br>Rwy‟n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i gefnogi | Mae gwaith yn parhau i werthuso llwyddiant canolfannau addysg diogelwch ar y ffyrdd. Hyd nes i‟w wedd |

| | Argymhelliad gan y Pwyllgor | Ymateb Hydref 2009 | Diweddariad Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|
| | lleoliadau ledled Cymru fel y gellir cynnig y math hwn o hyfforddiant i bob person ifanc yng Nghymru yn y pen draw. | datblygiad canolfannau fel DangerPoint, sy‟n gwneud plant yn fwy ymwybodol o ddiogelwch ym mhob agwedd ar eu bywydau bob dydd. Byddaf yn trafod yr argymhelliad hwn gyda fy nghydweithwyr yn y Cabinet i bennu pa gamau y gallai Llywodraeth y Cynulliad eu cymryd i ddatblygu mwy o‟r canolfannau hyn. | derfynol gael ei rhoi ar y gwaith hwn nid wyf wedi gallu trafod yr argymhelliad gyda‟m cydweithwyr yn y cabinet. |
| 14 | Argymhellwn y dylai gyrwyr a gafodd eu dal yn torri‟r gyfraith gael eu hanfon ar gwrs hyfforddiant gorfodol i wella‟u gyrru a chodi ymwybyddiaeth o gyflymder – pa un a ydynt yn cael dirwy ai peidio – ac y dylai‟r system gael ei monitro er mwyn sicrhau bod gwelliannau wrth yrru yn cael eu cyflawni. | Methu â derbyn<br><br>Ni allaf dderbyn yr argymhelliad hwn gan nad yw hwn yn fater datganoledig, ac mai‟r Swyddfa Gartref sy‟n gyfrifol amdano. Er hynny, byddaf yn trefnu i‟r Swyddfa Gartref dderbyn copi o‟r argymhelliad hwn. | Cafodd y Swyddfa Gartref gopi o‟r argymhelliad hwn. |
| 15 | Credwn ei bod yn hanfodol newid calonnau a meddyliau defnyddwyr presennol y ffyrdd a defnyddwyr y dyfodol, ac argymhellwn y dylai arian y Grant Diogelwch ar y Ffyrdd barhau ar ei ffurf bresennol er mwyn galluogi swyddogion diogelwch ar y ffyrdd mewn awdurdodau lleol i ddarparu yn erbyn yr amcanion a bennwyd o fewn Strategaeth Ddiogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru ac, yn | Derbyn<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi‟n llwyr yr angen i newid agwedd ac ymddygiad pob un o ddefnyddwyr y ffyrdd. Bydd awdurdodau lleol yn parhau i fod yn bartneriaid hollbwysig yn y gwaith o wneud ein ffyrdd yn fwy diogel. Byddwn yn parhau i neilltuo cyllid diogelwch ar y ffyrdd i‟w ddefnyddio gan awdurdodau lleol a byddwn yn ei gwneud yn amod i 20% o‟r cyllid hwnnw gael ei ddyrannu i gynlluniau addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd. Byddwn hefyd yn parhau i ariannu Cydgysylltydd Hyfforddi | Dyrannwyd £9.359 miliwn o gyllid i awdurdodau lleol yn 2010-11 fel grant wedi‟i neilltuo ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd lleol. Cafodd o leiaf 20% ei defnyddio ar gyfer mentrau addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd. Yn 2011-12 bydd y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael dyraniad wedi‟i neilltuo ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd – ni |

| | Argymhelliad gan y Pwyllgor | Ymateb Hydref 2009 | Diweddariad Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|
| | bennaf, i ganolbwyntio ar y rhai sy‟n byw mewn ardaloedd difreintiedig. | Cerddwyr Ifanc ym mhob awdurdod lleol. Rydym yn parhau i drafod gyda‟r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol pa fethodoleg ariannu a fydd yn berthnasol o 2010-11 ymlaen. | phenderfynwyd ar y swm yn derfynol eto – i gael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol. Hwy fydd yn penderfynu sut y dylai‟r grant gael ei ddosrannu er mwyn sicrhau‟r lleihad mwyaf posibl yn nifer y bobl sy‟n cael eu hanafu neu eu lladd. |
| 16 | Argymhellwn y dylid cael cynnydd sylweddol yng nghyllideb cerdded a beicio‟r Llywodraeth o 2010-2011 ymlaen er mwyn helpu i gyrraedd y targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei chynllun gweithredu Cerdded a Beicio. | Derbyn mewn egwyddor<br><br>Mae‟r Cynllun Gweithredu ar Gerdded a Beicio yn cynnwys amrywiaeth o fentrau y mae Llywodraeth y Cynulliad a‟n partneriaid yn eu cynnal er mwyn cyflawni ein nod o annog mwy o bobl i gerdded a beicio‟n fwy rheolaidd. Telir am y camau gweithredu yn y cynllun trwy gyllidebau rhaglenni cyfredol ac arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad a‟n partneriaid allweddol. Yn fy mhortffolio i, mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, prosiectau cerdded a beicio annibynnol, Trefi Teithio Cynaliadwy a chynlluniau rhyngwyneb cefnffyrdd. Yn ogystal, mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn darparu cyllid ar gyfer Rhwydwaith Beicio‟r Cymoedd a chynlluniau cysylltiedig eraill.<br><br>Mae‟r Cynllun Gweithredu ar Gerdded a Beicio yn amlinellu amrywiaeth o weithgareddau parhaus a ariennir gan adrannau eraill Llywodraeth y Cynulliad, er | Mae‟r Cynllun Gweithredu ar Gerdded a Beicio 2009-2013 yn nodi‟r camau y mae eu hangen er mwyn cynyddu nifer y bobl sy‟n cerdded a beicio, yn fwy diogel ac yn amlach. Mae‟r cynllun yn nodi‟r gweithgarwch sy‟n mynd yn ei flaen a ariennir gan adrannau eraill o Lywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys er enghraifft gwaith hyrwyddo sy‟n cael ei wneud gan yr adran Iechyd trwy‟r ymgyrch Newid am Oes. Er gwaethaf lleihad mewn cyllidebau cyfalaf mae Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wedi parhau i ariannu gweithgarwch o dan y Rhaglen |

| | Argymhelliad gan y Pwyllgor | Ymateb Hydref 2009 | Diweddariad Mawrth 2011 |
| --- | --- | --- | --- |
| | | mwyn cefnogi mwy o gerdded a beicio. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau sy‟n cael eu hariannu gan Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai o dan y Rhaglen Gwella Mynediad i‟r Arfordir (£2 filiwn y flwyddyn), y Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (£1.7 miliwn y flwyddyn), a chyllid ar gyfer costau gweithredu Sustrans Cymru a dau brosiect peilot Bike It. Mae‟r rhain oll yn cyfrannu at gyflawni‟r targedau yn y Cynllun. Er hynny, byddaf yn edrych yn ofalus ar gyllideb fy Adran ar gyfer 2011-12 ymlaen i weld a oes modd cynyddu‟r gyllideb ar gyfer cerdded a beicio. | Gwella Mynediad i‟r Arfordir a Chynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.<br><br>Yn fy mhortffolio, mae‟r cynnydd ers i‟r cynllun gael ei lansio ym mis Chwefror 2009 yn cynnwys mesurau a gyflwynwyd trwy fenter y Ganolfan Teithio Cynaliadwy, a chyhoeddwyd ail brosiect „Môn a Menai‟ yn ychwanegol at y prosiect cyntaf yng Nghaerdydd. Mae contract pedair blynedd i gyflenwi cynllunio teithio personol i weithleoedd ac ysgolion fel rhan o‟r fenter honno‟n cael ei ddatblygu a bydd yn hybu mwy o gerdded a beicio.<br><br>Dyfarnwyd £8.1 miliwn i 48 o brosiectau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ledled Cymru yn ystod 2009/10. Yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol roedd ymrwymiad i gynnal y rhaglen honno mewn blynyddoedd i ddod, ac i |

| | Argymhelliad gan y Pwyllgor | Ymateb Hydref 2009 | Diweddariad Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|
| | | | gynyddu‟r cyllid sydd ar gael ar gyfer llwybrau cerdded a beicio newydd. |
| 17 | Mae astudiaethau yn Sweden wedi dangos bod rhoi llai o arwyddion ar y ffyrdd yn gwella diogelwch ar y ffyrdd ac argymhellwn y gwneir yr un peth yng Nghymru. | Derbyn mewn egwyddor<br><br>Mae fy swyddogion wrthi‟n ymchwilio sut y gellid cymhwyso‟r ymchwil a gynhaliwyd yn Sweden i‟r rhwydwaith priffyrdd yng Nghymru. | Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi‟r egwyddor o osgoi gormod o betheuach diangen ar ochrau ffyrdd, a lleihau effaith amgylcheddol arwyddion traffig cyn belled ag sy‟n ymarferol. Dylai awdurdodau traffig ac ymarferwyr arwyddion fod yn gweithio‟n unol â‟r Llawlyfr Arwyddion Traffig a‟r Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd. Fe‟u hanogir i gyflawni archwiliadau o arwyddion a dodrefn stryd o fathau eraill a symud ymaith yr eitemau hynny nad oes eu hangen mwyach. |
| 18 | Argymhellwn y dylai‟r egin bartneriaeth ar gyfer lleihau nifer y bobl a gaiff eu hanafu neu eu lladd gael ei datblygu fel y gall chwarae rhan gydlynol yn y mentrau i leihau nifer y bobl a gaiff eu hanafu neu eu lladd ledled Cymru. | Derbyn<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad am weithio gyda‟n partneriaid i ddarparu system diogelwch ar y ffyrdd sy‟n ddiogel a chyfannol. Rydym hefyd am sicrhau bod mesurau a mentrau‟n cael eu targedu‟n gywir i sicrhau‟r budd mwyaf posibl o safbwynt diogelwch ar y ffyrdd. | Mae Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru wedi hen ymsefydlu ac yn cymryd rhan fwy cydgysylltiedig mewn mentrau i leihau nifer y bobl sy‟n cael eu hanafu neu eu lladd. |

| | Argymhelliad gan y Pwyllgor | Ymateb Hydref 2009 | Diweddariad Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|
| | | Un o‟n hamcanion allweddol fydd gweithio gyda‟r bartneriaeth lleihau anafiadau. | |
| 19 | Argymhellwn y dylid rhoi mwy o bwyslais ar fuddsoddi mewn cynlluniau addysgol effeithiol a da o ran adnoddau er mwyn dylanwadu ar agweddau ac ymddygiad ar ffyrdd Cymru. | Derbyn<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd cynlluniau addysgol ag adnoddau digonol. Mae llawer o asiantaethau‟n darparu addysg diogelwch ar y ffyrdd yn lleol. Mae‟n bwysig bod yr addysg hon o safon uchel ac yn cael ei chydgysylltu a‟i thargedu‟n ofalus. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sicrhau bod pawb yn deall y cylchoedd gwaith wrth ddarparu cyrsiau. | Mae‟r grŵp a grybwyllir isod yn edrych ar bob agwedd ar leihau nifer y bobl sy‟n cael eu hanafu neu eu lladd gan gynnwys addysg am ddiogelwch ar y ffyrdd. |
| 20 | Rydym yn croesawu‟r ffaith bod Llywodraeth Cymru wrthi‟n adolygu sut y gall yr holl asiantaethau sy‟n ymwneud â diogelwch ar y ffyrdd gydweithio, gan ei bod yn bwysig egluro‟r swyddogaethau. Argymhellwn mai canlyniad y fenter honno fydd datblygu cynllun mwy strategol ac effeithiol yn y dyfodol. | Derbyn<br><br>Rwy‟n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae dull gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol o ran darparu mentrau diogelwch ar y ffyrdd effeithiol. Mae angen cyflawni hyn o fewn fframwaith cyfrifoldeb clir. Byddwn yn ceisio datblygu agwedd fwy strategol at ddiogelwch ar y ffyrdd. | Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru‟n cyfrannu swm sylweddol at wella diogelwch ar y ffyrdd a lleihau nifer y bobl sy‟n cael eu hanafu neu eu lladd ar y ffyrdd ar draws Cymru trwy nifer o wahanol gynlluniau a mentrau. Mae‟r buddsoddiad hwn yn cyfrannu at ddatrysiadau addysgol, amgylcheddol ac o ran gorfodi ar y rhwydwaith Ffyrdd Lleol. Mae‟r lliaws o weithgareddau a |

| | Argymhelliad gan y Pwyllgor | Ymateb Hydref 2009 | Diweddariad Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|
| | | | gyflawnir o dan faner diogelwch ar y ffyrdd yn ei gwneud yn anodd canfod y defnydd mwyaf effeithiol o‟r arian hwn i gyrraedd y targedau hyn.<br>Ein bwriad yw sefydlu trefniadau llywodraethu cadarnach, gan ddwyn ynghyd y partneriaid hanfodol yn un grŵp strategol i sicrhau y canolbwyntir yn well ar y lliaws o weithgareddau ar wahân sy‟n gysylltiedig â chyrraedd y targedau heriol ym maes diogelwch ar y ffyrdd. Bydd y Grŵp yn ceisio gosod yr agenda strategol ar gyfer sicrhau gwell diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru. |